# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 12 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion

(229)v3

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Burfa Murco, Aberdaugleddau

Dechreuodd yr eitem am 15.02

### 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.38

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

**NDM5614 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu swydd Comisiynydd y Lluoedd Arfog.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 34 | 44 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16.18

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

**NDM5616 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod gan Gymru gyfoeth o adnoddau naturiol.

2. Yn nodi'r rôl bwysig y mae dŵr yn ei chwarae o ran cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru ar hyn o bryd ac at y dyfodol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd o fanteisio ar botensial dŵr i economi Cymru.

4. Yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i ymgysylltu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol i sicrhau bod pwysigrwydd adnoddau dŵr i gymunedau yn cael ei nodi a gweithio tuag at gynnwys gwybodaeth ar labeli ynghylch ôl troed dŵr cynhyrchion a gwasanaethau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 12 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**6 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 17.17

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5615 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r rhagolygon presennol y bydd y cytundeb consesiwn ar gyfer pontydd Hafren yn dod i ben yn 2018 a bod angen cynnal trafodaethau cynnar ynghylch system codi tollau, gwaith cynnal a chadw a pherchnogaeth y pontydd at y dyfodol.

2. Yn credu bod y system codi tollau bresennol yn faich annheg ar fusnesau, teithwyr a'r cyhoedd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gynllunio ar gyfer dyfodol y pontydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddiddymu'r tollau ar bontydd Hafren unwaith y bydd y costau adeiladu ac atgyweirio presennol yn cael eu talu.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 39 | 44 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

4. Yn galw am drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros bennu'r tollau ar bontydd Hafren, yn dilyn y consesiwn, i Lywodraeth Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i leihau'r tollau ar bontydd Hafren i adlewyrchu costau cynnal a chadw yn unig, ac i barhau i roi ystyriaeth i'r opsiwn tymor hir o ddileu'r tollau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 5 | 44 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi ei dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5615 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r rhagolygon presennol y bydd y cytundeb consesiwn ar gyfer pontydd Hafren yn dod i ben yn 2018 a bod angen cynnal trafodaethau cynnar ynghylch system codi tollau, gwaith cynnal a chadw a pherchnogaeth y pontydd at y dyfodol.

2. Yn credu bod y system codi tollau bresennol yn faich annheg ar fusnesau, teithwyr a'r cyhoedd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gynllunio ar gyfer dyfodol y pontydd.

4. Yn galw am drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros bennu'r tollau ar bontydd Hafren, yn dilyn y consesiwn, i Lywodraeth Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i leihau'r tollau ar bontydd Hafren i adlewyrchu costau cynnal a chadw yn unig, ac i barhau i roi ystyriaeth i'r opsiwn tymor hir o ddileu'r tollau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 5 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 7 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.02

**Crynodeb o Bleidleisiau**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.04

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2014**